

YMARFER 3 i'r Saesneg: Sylwadau

Dywedodd Gandhi mai gwir fesur unrhyw gymdeithas yw'r modd y mae hi'n trin ei gweiniaid¹, ac fe ddylai gosodiad o'r fath fod mor amlwg nes ei fod yn ystrydeb am y rhesymau gorau².

Ond tybed sut byddai rhywrai³ n mesur ein cymdeithas ninnau ar sail rhai o'r sylwadau sarhaus sy'n dal i gael eu gwneud am bobl ag anableddau?

Rai blynyddoedd yn ôl dywedodd un o ymgeiswyr UKIP⁴ y dylai fod rheidrwydd ar rieni i erthyglu babanod sydd â rhai cyflyrau⁵ er mwyn arbed costau i'r Gwasanaeth Iechyd, ac ychwanegodd y gwyddonydd Richard Dawkins⁶ ei geiniogwerth yntau⁷ ar wefan gymdeithasol Twitter trwy ddweud mai peth anfoesol yw cadw baban sydd â syndrom Down⁸.

A dyna i chi Katie Hopkins⁹, sydd bellach yn gwneud bywoliaeth o ddweud ar goedd y pethau hyllaf sy'n dod i'w meddwl¹⁰. Ei hensyniad gwarthus¹¹ hithau ar Twitter oedd y dylid cael gwared ar bobl sydd â chorachedd¹².

Cofiw'n wedyn am yr Arglwydd Freud, a aeth i ddŵr poeth¹³ am awgrymu nad oedd rhai cyflogwyr yn barnu bod pobl ag anableddau yn werth yr isafswm cyflog.

Ar ben hyn oll¹⁴, mae'r newidiadau i'r system fudd-daliadau, y dreth ystafell wely a'r monitro a'r ailasesu llawdrwm¹⁵ ar union anableddau pobl yn gwneud i'r rhai y mae eu bywydau eisoes yn ddigon anodd deimlo eu bod o dan amheuaeth yn barhaus¹⁶. Ymddengys mai'r unig beth sy'n tanio'r¹⁷ Adran Gwaith a Phensiynau y dyddiau hyn yw'r dybiaeth bod rhywun yn rhywle yn cael rhywbeth na ddylai¹⁸.

[addasiad o erthygl yn *Barn*]

1. **Dywedodd Gandhi mai gwir fesur unrhyw gymdeithas yw'r modd y mae hi'n trin ei gweiniaid...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...the way it treats its people*
2. *...the way it treats its weakest*
3. *...the way it treats its poorest*
4. *...the way it treats its administrations*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...weaker members*
2. *...weakest members*
3. *...vulnerable citizens*

SYLWADAU:

1. 'Gweiniaid' sydd yn y gwreiddiol, sef lluosog, 'gwan', ac mae'r gair hwn

yn gwbl hanfodol i egluro ystyr gweddill y darn. Un peth pwysig i'w gofio wrth gyfieithu yw mai cyfieithu'r testun cyfan mae'r cyfieithydd, ac nid brawddegau digyswllt. O edrych ar y frawddeg hon yng ngoleuni gweddill y darn byddai modd gweld nad yw gair fel *poorest* neu *administrations* (Af.4) yn gwneud unrhyw fath o synnwyr yn y cyd-destun.

2. Er bod Afl.2 wedi deall ystyr y gair, i gyfleu'r ystyr yn llwyddiannus yma mae angen defnyddio mwy nag un gair yn y Saesneg fel a geir yn Ll.1, Ll.2 a Ll.3.

2. ...ac fe ddylai gosodiad o'r fath fod mor amlwg nes ei fod yn ystrydeb am y rhesymau gorau.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...and an assertion of such should be so apparent until it is an axiom for the best reasons.*
2. *...and such a statement should be so evident until it is a cliché for the best of reasons.*
3. *...and this sort of statement should be so obvious that it has become cliché for the best reasons.*
4. *...such statement should be made so visible that it becomes a cliché for the best of reasons.*
5. *...and a statement such as that should be so obvious that it becomes a stereotype for the best reasons.*
6. *...and that such a statement should be a cliché for the best reasons, as it is so obvious'.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...such a statement should be so glaringly obvious that it is a cliché for all the right reasons*
2. *...such a statement should be so obvious that it becomes a cliché for the best reasons...*

SYLWADAU:

1. *Statement* yw'r cyfieithiad gorau o '**gosodiad**' ond mae 'assertion' yn dderbyniol hefyd. Mae bron pob un o'r cyfieithiadau aflwyddiannus wedi cyfieithu '**o'r fath**' yn anghywir. *Such a statement* yw'r cyfieithiad gorau a symlaf. Mae *his sort of statement* ac *a statement such as that* yn glogyrnaidd. Mae *an assertion of such* a *such statement* yn ramadegol anghywir.

2. *So obvious* yw'r ffordd orau o gyfieithu '**mor amlwg**'. Mae 'cydleoliad' yn gysyniad pwysig mewn iaith - y geiriau sydd fel rheol yn mynd gyda'i gilydd. Nid yw 'visible statement' yn gydleoliad naturiol. Er bod Ll.1 wedi ychwanegu gair nad yw yn y gwreiddiol mae *glaringly obvious* yn gydleoliad naturiol yn Saesneg, er ychydig yn rhy gryf.

3. O'r gair Saesneg 'stereotype' y daw 'ystrydeb' ond defnyddir y gair *stereotype* yn Saesneg yn bennaf i gyfeirio at ddelwedd o berson neu wrthrych sydd wedi ei gorsymleiddio. Pan sonnir am ddatganiad, y gair *cliché* a ddefnyddir. Defnyddir *axiom* fel rheol i ddynodi gwirionedd cyffredinol.

4. Mae nifer wedi mynd i'r gors wrth gyfieithu '**nes ei fod**' yn llythrennol o'r Gymraeg. Mae *until* yn taro'n chwithig yn Saesneg a dylid defnyddio *that*.

Mae 'nes' yn awgrymu rhyw fath o newid cyflwr ac mae'n bosib mynegi'r ystyr trwy ddefnyddio 'becomes'.

5. 'am y rhesymau gorau'. Mae *for the best reasons* yn dderbyniol, ond mae'r idiom hollol naturiol *all the right reasons* (LI.1) yn well. Mae *for the best of reasons* (Afl.2) yn dda iawn hefyd.

6. Mae Afl.6 wedi newid trefn y frawddeg heb fod angen. Dylid cofio bod glynw wrth yr un drefn syniadol (lle bo modd, yn ôl cyfyngiadau'r gystrawen) yr un mor bwysig â chyfieithu'r geiriau'n gywir.

3. Ond tybed sut byddai rhywrai...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *But how would people...*
2. *...how might someone...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *One wonders how some people*

SYLWADAU:

1. Mae'r gair 'tybed' (o'r ferf 'tybiaf') yn y gwreiddiol felly dylid defnyddio rhywbeth fel *One wonders how* neu 'It raises the question'.
2. 'Rhywrai' a geir yn y gwreiddiol – *some people*.

4. ...un o ymgeiswyr UKIP

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *...one of UKIP's candidates*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...a UKIP candidate*

SYLWADAU:

1. Rhaid dweud 'un o ymgeiswyr UKIP' yn Gymraeg oherwydd nad oes bannod amhendant ac felly byddai 'ymgeisydd UKIP' yn golygu 'the UKIP candidate' ond yn Saesneg byddai rhywun yn dweud *a UKIP candidate*.

5. ... y dylai fod rheidrwydd ar rieni i erthylu babanod sydd â rhai cyflyrau

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *It should be necessary for parents of babies with some conditions to have an abortion*
2. *There should be an obligation placed on parents to abort babies with certain conditions*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Parents should be obliged to abort babies with certain conditions.*

SYLWADAU:

1. Mae *it should be necessary for a there should be an obligation placed* yn

gyfieithiadau hirwyntog a chlogyrnaidd o 'dylai fod rheidrwydd ar'. Gwell fyddai *should be obliged/forced/compelled*.

2. Mae *with certain conditions* yn cyfleu ystyr 'â rhai cyflyrau' yn well na '*with some conditions*'.

3. Mae Afl.1 wedi newid trefn y frawddeg a thrwy hynny wedi newid ei ystyr. Mae'n awgrymu y dylai rhieni sydd eisoes â phlant sydd â chyflyrau penodol gael eu gorfodi i gael erthylad.

6. ...y gwyddonydd Richard Dawkins

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *The scientist, Richard Dawkins*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...scientist Richard Dawkins*

SYLWADAU:

1. Mae ystyr Afl.1 yn gywir ond y duedd yn Saesneg yw hepgor y fannod bendant a'r atalnod fel yn Ll.1.

7. ...ei geiniogwerth yntau

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *his pennyworth*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *his two penny worth*

SYLWADAU:

1. Yn Gymraeg gellir defnyddio 'ceiniogwerth' i gyfleu'r ystyr o 'cael dweud ei ddweud' ond yn Saesneg arferir dweud 'two pennworth', 'tuppence worth' neu 'two penn'orth' i gyfleu'r un ystyr. Neu gellid cyfleu ystyr yr ymadrodd mewn ffordd arall, e.e. 'also had his say'.

8. ...peth anfoesol yw cadw baban sydd â syndrom Down.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...that not aborting a baby with Down's syndrome is immoral.*

2. *...that keeping a baby that has Down syndrome is immoral.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...that it is immoral not to abort a baby with Down syndrome.*

SYLWADAU:

1. Mae'r cymal cyfatebol yn y Gymraeg yn gymal pwysleisiol sy'n dechrau gyda 'peth anfoesol' felly mae'n bwysig ceisio adlewyrchu hynny yn Saesneg fel yn Ll.1.

2. 'Cadw' sydd yn y gwreiddiol ond gan mai'r ystyr yw 'peidio ag erthylu' mae *not to abort* yn dderbyniol.

3. *Down's syndrome/Down syndrome* – mae'r ddau yn cael eu derbyn

9. **A dyna i chi Katie Hopkins,**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *And there you have Katie Hopkins*
2. *And into the bargain comes Katie Hopkins*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *And there's Katie Hopkins*
2. *And what about Katie Hopkins*

SYLWADAU:

Dyna enghraifft arall o idiom syml yn Gymraeg a ddefnyddir pan fydd siaradwr neu awdur yn gorffen un pwynt ac yn troi ei sylw at wrthrych neu unigolyn newydd sy'n gysylltiedig â'r un drafodaeth. Ni ddylid ei gyfieithu'n llythrennol i'r Saesneg fel Afl.1. Mae'n amlwg bod Afl.2 yn meddwl am yr ymadrodd Gymraeg 'yn y fargen' sy'n golygu rhywbeth tebyg. Mae Ll.1 a 2 yn cynnig idiom Saesneg y gellid ei ddefnyddio i fynegi'r un syniad.

10. **...sydd bellach yn gwneud bywoliaeth o ddweud ar goedd y pethau hyllaf sy'n dod i'w meddwl.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...who now makes a living of publicly saying the cruellest things on her mind*
2. *...who has by now made a living*
3. *...who make a living by publicly stating the most unpleasant things which come into her mind.*
4. *...who has come to make a living out of publicly declaring the nastiest things that come to her mind*
5. *...who now makes a living from saying aloud the ugliest of things which come to her mind.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...who now makes a living out of stating the most unpleasant things that come to mind*
2. *...who now makes a living by stating the vilest things that cross her mind/that pop into her head*

SYLWADAU:

1. **'Sy'n dod i'w meddwl'** sydd yn y gwreiddiol felly byddai *that cross her mind/ that come to mind* yn cyfateb o ran ystyr. Nid oes angen *her* yn *come to mind*.
2. Defnyddir y gair Cymraeg 'hyll' yn aml i gyfleu 'amhleserus', 'cas' a 'milain'. Mae'r defnydd ehangach yma'n llai cyffredin yn Saesneg felly er bod *ugliest* yn gwneud y tro gwell defnyddio ansoddeiriau fel *most unpleasant, nastiest* a *vilest*.
3. Nid yw Af.2 yn gyfieithiad cywir oherwydd mae'r ferf yn Gymraeg yn y presennol a *who makes a living* sy'n gywir. Yn Afl.3 *makes* yw'r ffurf gywir

nid *make* ac ni chyfieithwyd y gair 'bellach'.

4. Ystyr 'bellach' yw 'now' neu 'by now'. *Who now makes a living* yw'r cyfieithiad cywir.

5. Yn Afl.5 nid yw ystyr *saying aloud* yn gywir gan fod 'ar goedd' yn golygu 'in public'.

11. Ei hensyniad gwarthus hithau ar Twitter...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Her outrageous tweet*
2. *Her disgraceful innuendo*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Her despicable insinuation*

SYLWADAU:

1. Mae Afl. 1 yn cyfieithu'n rhy lac. Nid yw *outrageous* yn gyfystyr â 'gwarthus' ac nid yw'n cyfieithu'r gair 'ensyniad'.

2. Mae 'innuendo' ac 'insinuation' yn debyg iawn o ran ystyr. Mae'r ddau yn golygu sylw sy'n awgrymu rhywbeth difriol am unigolyn neu wrthrych. Ond tueddir i ddefnyddio 'innuendo' i gyfle rhywbeth o natur rywiol ac felly mae'n well defnyddio *insinuation*.

12. ...y dylid cael gwared ar bobl sydd â chorachedd.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *People with dwarfism should be gotten rid of*
2. *People with dwarfism should be discarded*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *People with dwarfism should be eradicated*

SYLWADAU:

Mae'r defnydd o'r amheronol yn Gymraeg yn creu problemau mynych i'r cyfieithydd. Mae cyfieithiad llythrennol Afl.1 yn lletchwith iawn yn Saesneg, ac nid yw *discarded* yn gwneud y tro chwaith. Yr awgrym o'r testun yw na ddylai pobl felly gael eu geni felly mae'r gair *eradicated* yn taro deuddeg.

13. Cofiwn wedyn am yr Arglwydd Freud, a aeth i ddŵr poeth...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Lord Freud also comes to mind, who got into hot water...*
2. *We then remember Lord Freud, who got into hot water*
3. *We should also remember Lord Freud, who found himself in troubled waters...*
4. *We also remember Lord Freud, who stepped into hot water*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Lord Freud also comes to mind. He got into hot water...*

SYLWADAU:

1. Er bod defnyddio *also comes to mind* i gyfieithu 'Cofiw'n wedyn' yn dda yn Afl.1, mae'n creu is-gymal lletchwith, oherwydd bod *who got into hot water* yn cyfeirio'n ôl at yr Arglwydd Freud. Byddai'n well rhannu'r frawddeg fel yn Ll.1 neu gellir defnyddio'r ymadrodd 'Let us not forget Lord Freud, who got into hot water...'.
2. Mae *who stepped into hot water* a *who found himself in troubled waters* yn gam-gyfieithiadau. Yr ymadrodd arferol yw '*he got [himself] into/found himself in hot water*'.

14. Ar ben hyn oll,

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *On top of all this*
2. *as well as all this*

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *furthermore*
2. *to add to all this*
3. *To cap it all*

SYLWADAU:

Mae cynnig Afl.1 yn gwbl llythrennol ac nid yw cynnig Afl.2 yn naturiol chwaith. Rhaid meddwl bob amser wrth gyfieithu beth fyddai'n cyfateb yn naturiol yn yr iaith darged.

15. ... ailasesu llawdrwm

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...monitoring and arduous reassessment*
2. *...never-ending monitoring and reassessment*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...harsh monitoring and reassessment*
2. *...heavy-handed monitoring and reassessment*

SYLWADAU:

1. Nid yw Afl. 1 a 2 yn cyfleu'r ystyr o gwbl. Y tro hwn byddai cyfieithiad llythrennol - *heavy-handed* – yn well, neu byddai *harsh*, *intensive* neu hyd yn oed *excessive* yn gwneud y tro.

2. Mae Afl. 1 wedi cymryd bod yr ansoddair yn cyfeirio at yr ail-asesu yn unig ond yn y cyd-destun mae'n amlwg ei fod yn cyfeirio at y ddwy ferf.

16. ... dan amheuaeth yn barhaus.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...constantly to blame.*
2. *...constantly doubted.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*constantly under suspicion*

SYLWADAU:

Mae Afl. 2 yn cynnig cyfieithiad llac. Nid yw 'beio' ac 'amau' yn golygu'r un peth. Mae cynnig Afl. 2 yn lletchwith.

17. ...tanio'r...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...*the only thing that is igniting*
2. ...*the only thing firing*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*the only thing driving*
2. ...*the only thing motivating*

SYLWADAU:

1. Mae Afl.1 yn gyfieithiad llythrennol ac nid yw'n gwneud y tro o gwbl. Byddai *driving* neu *motivating* yn fwy priodol.
2. O bosib yr hyn sydd gan Afl.2 mewn golwg yw 'firing up'.

18. ...yn cael rhywbeth na ddylai.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...*being undeservedly recompensed*
2. ... *getting something for nothing*
3. ...*receiving something they shouldn't be*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*getting something that they shouldn't*

SYLWADAU:

Unwaith eto mae angen edrych ar y cyd-destun, sef budd-daliadau. Yn y cyd-destun hwnnw nid yw cynigion Afl. 1 a 2 yn addas o gwbl. Mae cynnig Afl. 3 yn well ond mae'r gystrawen *they shouldn't be* yn lletchwith. Nid oes angen *be* ar y diwedd.